27 Tachwedd 2023

Annwyl

**ATISN 19322 – Triniaeth ym Mryste**

Diolch ichi am eich cais i Lywodraeth Cymru am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a ddaeth i law ar 22 Tachwedd 2023. Rydych wedi gofyn y canlynol:

- Ers 1 Ionawr 2010, faint o bobl sydd wedi cael triniaeth yn Bristol North ME/CFS Centre, Cossham Hospital, BS15 1LF, sy'n byw yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

**Ymateb**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw'r data yr ydych yn gofyn amdanynt. Sefydliadau'r GIG sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, ac felly efallai y byddech yn gallu cael yr wybodaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
Rwyf wedi atodi dolen at fanylion cyswllt y bwrdd iechyd:
Gwasanaethau Lleol - GIG Cymru

**Y Camau Nesaf**

Mae eich cais yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch - eich enw a'ch cyfeiriad er enghraifft. Llywodraeth Cymru fydd y prosesydd data ar gyfer yr wybodaeth hon ac, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, bydd yn cael ei phrosesu er mwyn inni allu cyflawni ein tasg gyhoeddus a bodloni ein hymrwymiadau cyfreithiol o dan y Ddeddf i roi ateb ichi.

Yr unig ddefnydd a wnawn o'r wybodaeth bersonol hon fydd er mwyn ymdrin â'ch cais ac unrhyw faterion sy'n codi yn ei sgil. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol ac unrhyw wybodaeth arall yn ymwneud â'ch cais am dair blynedd ar ôl y dyddiad y caiff eich cais ei gau'n derfynol. Wedyn byddwn yn cael gwared ar eich gwybodaeth bersonol mewn modd diogel.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawl i'r canlynol:

- i gael gwybod pa ddata personol a gedwir amdanoch gan Lywodraeth Cymru a chael gafael arnynt;
- i fynnu ein bod yn cywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan rai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (o dan rai amgylchiadau)
- i gludadwyedd data (o dan rai amgylchiadau)
- yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac yn ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â'r:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad isod:
Yr Uned Hawl i Wybodaeth,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.
Hefyd mae gennych hawl i gyflwyno'ch cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:
Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn hyd nes iddi orffen mynd drwy ein proses adolygu fewnol ni ein hunain.

Yn gywir,